Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print bras gan Lywodraeth Cymru, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Deddf Cynllunio Gwlad A Thref 1990

Gorchymyn cau Priffyrdd (Rhos Yr Haidd, Carno, Caersŵs, Powys) 201-

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn ac i ddarparu ar gyfer y rhannau newydd o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Os gwneir y Gorchymyn, nid awdurdodir cau'r briffordd ond er mwyn galluogi'r datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn i gael ei wneud. Bydd y Gorchymyn yn peidio â bod yn effeithiol os daw'r caniatâd cynllunio i ben neu os caiff ei ddirymu.

Yn ystod y cyfnod o 28 o ddiwrnodau ar ôl 28 Mehefin 2012, gellir edrych ar gopïau o'r Gorchymyn a'r map a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn Llyfrgell Ardal y Drenewydd, Park Lane, y Drenewydd, Powys neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod.

Cyn pen y cyfnod o 28 o ddiwrnodau a nodir uchod, caiff unrhyw berson, drwy hysbysu Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth, y Gangen Orchmynion, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ wrthwynebu gwneud y Gorchymyn. Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd arnom angen ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses o ymgynghori ag eraill, bydd yr wybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol yn cael eu trosglwyddo i'r ceisydd/i'r datblygwr ac yn achlysurol i'r awdurdod priffyrdd lleol i'w galluogi hwy i ymateb i chi. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datguddio eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol i'n galluogi i ddelio â'r materion yr ydych wedi tynnu'n sylw atynt. Pan fydd Gorchymyn Cau yn dod yn destun Ymchwiliad Cyhoeddus (YC), bydd pob gohebiaeth yn cael ei chopïo i Arolygydd yr Ymchwiliad ac fe'i cedwir yn y Llyfrgell YC lle y bydd ar gael i'r cyhoedd.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk (Detholer Deddfwriaeth / Is-ddeddfwriaeth / Deddfwriaeth ddrafft / Offerynnau Anstatudol Drafft / Deddf Cynllunio Gwlad a Thref: Gorchmynion Cau).

M D BURNELL
Trafnidiaeth

YR ATODLENNI

Atodlen 1

(Bras amcan yw pob mesuriad)

Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn

Rhan afreolaidd ei siâp o'r briffordd ddiddosbarth U2544 o bwynt rhwng Ysgubor rhif 1 ac Ysgubor rhif 2 tua'r gogledd-ddwyrain i bwynt 48.5 o fetrau oddi wrth ei chyffordd â'r C2176. Mae'r rhan yn 297 o fetrau ei hyd, yn ei man lletaf yn 3.5 metr a chyfanswm ei harwynebedd yw 1,001 o fetrau sgwâr. Mae'r rhan yn ymestyn o bwynt A i bwynt B ar y plan a adneuwyd.

Atodlen 2

Disgrifiad o'r rhannau newydd o briffordd sydd i'w darparu o dan y Gorchymyn hwn

i. Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd sef pen troi 37.8 o fetrau oddi wrth y gyffordd â'r C2176 y mae ei hyd yn 11 o fetrau, y mae yn ei man lletaf yn 5 metr ac mae cyfanswm ei harwynebedd yn 66 o fetrau sgwâr. Mae gan y rhan gyfeir bwynt C ar y plan a adneuwyd

ii. Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd, sy'n rhedeg o'r C2176 i'r rhan wedi ei chau o'r U2554, y mae ei hyd yn 146 o fetrau, y mae yn ei man lletaf yn 5.5 metr, ac mae cyfanswm ei harwynebedd yn 504 o fetrau sgwâr. Mae'r rhan yn ymestyn o bwynt D i bwynt E ar y plan a adneuwyd

Atodlen 3

Y Datblygiad Arfaethedig

Trosi 3 adeilad amaethyddol yn 3 annedd, gwneud mynedfa i gerbydau, gosod tanc carthion a gwaith cysylltiedig yn Rhos yr Haidd, Carno, Caersŵs, Powys yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 6 Mawrth 2008 o dan gyfeirnod M/2007/0954 fel y'i hamrywiwyd gan y Cyngor ar 31 Awst 2011 o dan gyfeirnod P/2011/0816.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Welsh Government, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

Town and Country Planning Act 1990

The Stopping up of Highways (Rhos Yr Haidd, Carno, Caersws, Powys) Order 201-

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers propose to make an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 to authorise the stopping up of the area of highway described in Schedule 1 to this Notice and to provide for the new areas of highway described in Schedule 2 to this Notice.

If the Order is made, the stopping up will be authorised only in order to enable the development described in Schedule 3 of this Notice to be carried out. The Order will cease to have effect if the planning permission expires or is revoked.

During the 28 days from 28 June 2012, copies of the Order and the deposited map may be inspected free of charge at the Newtown Area Library, Park Lane, Newtown, Powys or may be obtained free of charge from the address below.

Within the above mentioned period of 28 days, any person may, by notice to the Welsh Government, Transport, Orders Branch, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ object to the making of the Order. Should you wish to object, support or make representations, we may need to consult with people and organisations outside of the Welsh Government. As part of the process of consulting with others, the information you have given us and your personal data will be passed to the applicant/developer and on occasion the local highway authority to enable them to respond to you. We will however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to enable us to deal with issues you have brought to our attention. Where a stopping up Order becomes the subject of a Public Inquiry (PI), all correspondence is copied to the Inspector of the Inquiry and is kept in the PI Library when it is publicly available.

A copy of the Order and Notice can be viewed at the Welsh Government's website at www.wales.gov.uk (Select Legislation / Subordinate Legislation/ Draft Legislation / Draft Non-Statutory Instruments / Town and Country Planning Act Stopping Up Orders).

M D BURNELL
Transport

SCHEDULES

Schedule 1

(All measurements are approximate)

Description of the area of highway to be stopped up under this Order

An irregularly shaped area of the unclassified highway U2544 from a point between Barn number 1 and Barn number 2 in a north easterly direction to a point 48.5 metres from its junction with the C2176. The area has a length of 297 metres, a maximum width of 3.5 metres and a total area of 1,001 square metres. The area extends from point A to point B on the deposited plan.

Schedule 2

Description of the new areas of highway to be provided under this Order

i. An irregularly shaped area of highway being a turning head situated 37.8 metres from the junction with the C2176 with a length of 11 metres, a maximum width of 5 metres and a total area of 66 square metres. The area has a reference point C on the deposited plan

ii. An irregularly shaped area of highway running from the C2176 to the stopped up area of the U2554, with a length of 146 metres, a maximum width of 5.5 metres, and a total area of 504 square metres. The area extends from point D to point E on the deposited plan

Schedule 3

Proposed Development

The conversion of 3 agricultural buildings to form 3 dwellings, formation of vehicular access, installation of a septic tank and associated works at Rhos Yr Haidd, Carno, Caersws, Powys in accordance with planning permission granted under Part III of the Act of 1990 by the Council on 6 March 2008 under reference M/2007/0954 as varied by the Council on 31 August 2011 under reference P/2011/0816.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE